Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**ATODIAD 1**

**DATGANIAD YSGRIFENEDIG RHEOL SEFYDLOG: BIL CYMRU: GWELLIANNAU LLYWODRAETH Y DU A GYFLWYNWYD AR GYFER CAM ADRODD TŶ'R ARGLWYDDI**

| Rhif y Cymal / Atodlen | Rhif y Gwelliant | Pwnc y Gwelliant |
|---|---|---|
| Cymal 5 | 9 | Yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol cyn gwneud rheoliadau i gyfuno etholiad Cynulliad ag amrywiol etholiadau Seneddol, etholiadau Senedd Ewrop ac is-etholiadau. |
| Ar ôl Cymal 17 | 72A | Cynyddu'r uchafswm cyfanredol y caiff Gweinidogion Cymru ei fenthyg ar ffurf benthyciad at ddiben bodloni gwariant cyfalaf i £1,000 miliwn. |
| Cymal 35 | 27 | Ymestyn y ddyletswydd ar y ddwy ochr i ymgynghori cyn arfer swyddogaeth beilotiaeth berthnasol i'r sawl y mae'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru wedi dirprwyo'r swyddogaeth o wneud gorchymyn adolygu harbwr o dan adran 42A o Deddf Harbyrau 1964 iddynt. |
| Ar ôl Cymal 35 | 28 | Yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion y Goron ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn arfer swyddogaethau perthnasol sy'n ymwneud â harbyrau mewn achosion lle bo o leiaf un o'r harbyrau perthnasol yng Nghymru. |
| Cymal 37 | 38 | Yn darparu y caiff rheoliadau o dan adran 36C(2) o Ddeddf Trydan 1989 ddarparu y caiff Deddfau'r Cynulliad fod yn gymwys, gydag addasiadau penodedig, i amrywio cydsyniad ar gyfer gorsaf gynhyrchu. |
| Cyn Cymal 47 | 54 | Yn trosglwyddo i Weinidogion Cymru amrywiol swyddogaethau sy'n ymwneud â chychod pysgota Cymru (hynny yw, cychod y mae eu porthladd cartref yng Nghymru) y gellir eu harfer y tu hwnt i'r terfyn tua'r môr ym mharth Cymru. |
| Ar ôl Cymal 49 | 56 | Yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyfyngu, drwy Orchymyn, ar nifer y peiriannau hapchwarae a awdurdodir o dan drwydded safle betio y mae uchafswm y tâl a godir am eu defnyddio dros £10 (er enghraifft, terfynellau betio ods penodedig). Mae'r pŵer hwn yn gymwys i drwyddedau safleoedd betio a ganiateir wedi i'r cymal hwn ddod i rym yn unig. Mae Gorchymyn o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Cynulliad. |

| Rhif y Cymal / Atodlen | Rhif y Gwelliant | Pwnc y Gwelliant |
|---|---|---|
| Atodlen 4 | 112 – 114 | Yn ehangu cwmpas swyddogaethau Gweinidogion y Goron o dan adran 5(1) a (2)(a) o Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968 y gellir eu harfer yn gydredol â Gweinidogion Cymru.<br><br>Mae hyn yn ymdrin â swyddogaethau y gellir eu harfer mewn perthynas â chychod pysgota Cymru y tu hwnt i'r terfyn tua'r môr ym mharth Cymru.<br><br>Mae'r gwelliannau'n dechnegol i raddau helaeth, i gadarnhau pa rai o swyddogaethau un o Weinidogion y Goron neu'r Sefydliad Rheoli Morol o dan Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967 a Deddf Pysgodfeydd 1981 y gellir eu harfer yn gydredol â Gweinidogion Cymru.<br><br>Caiff swyddogaeth ychwanegol, o dan adran 30(2) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (pŵer i wneud Gorchmynion sy'n ofynnol i orfodi cyfyngiadau neu rwymedigaethau'r UE sy'n ymwneud â physgota môr) ei gwneud yn ymarferadwy yn gydredol â Gweinidogion Cymru. |
| Atodlen 4, para 4 | 114A | Yn ychwanegol i'r swyddogaethau yn adran 6 o Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998 (strategaethau ar gyfer mynd i'r afael â throseddu ac anrhefn neu aildroseddu yng Nghymru), mae swyddogaethau canlynol yr Ysgrifennydd Gwladol i fod yn arferadwy ar y cyd â Gweinidogion Cymru:<br><br><u>Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009</u><br>*Adrannau 45, 46 a 47*<br>*Atodlen 5*<br>Swyddogaethau i baratoi, diwygio ac adolygu datganiad polisi morol ar y cyd.<br>*Adran 70(6)*<br>Y swyddogaeth o gyfuno ymchwiliadau sy'n gysylltiedig â phenderfyniad ynglŷn â cheisiadau am drwydded forol.<br><br><u>Rheoliadau Strategaeth Forol 2010</u><br>*Rheoliad 19*<br>*Rheoliad 20*<br>Rhoi cyfarwyddiadau, a chanllawiau, i awdurdod cyhoeddus ynglŷn â swyddogaethau a gedwir a swyddogaethau datganoledig at ddibenion gweithredu Cyfarwyddeb 2008/56/EC sy'n sefydlu fframwaith ar gyfer camau gweithredu'r UE ym maes polisi amgylchedd morol. |
| Atodlen 6 | 118-119 | Yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddirprwyo, drwy |

| Rhif y Cymal / Atodlen | Rhif y Gwelliant | Pwnc y Gwelliant |
|---|---|---|
| | | reoliadau, y cyfrifoldeb am wneud penderfyniad ynglŷn â cheisiadau o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989 am gydsyniad i gynllunio datblygiadau ynni ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu hyd at 350MW. Caniateir iddynt hefyd ddirprwyo, drwy reoliadau, y cyfrifoldeb am wneud penderfyniad ynglŷn â cheisiadau i amrywio cydsyniad a roddwyd o dan adran 36. Mae'r rheoliadau hynny, yn y ddau achos, yn ddarostyngedig i weithdrefn negyddol y Cynulliad. |

Gellir gweld rhifau'r gwelliannau trwy'r dolenni a ganlyn:
Hyperddolen HL Bill 77-I Marshalled List for Report
HL Bill 77-II Second marshalled list for Report